# JONES, DAVID (1663 - 1724?), clerigwr

**Enw:** David Jones
**Dyddiad geni:** 1663
**Dyddiad marw:** 1724?
**Rhiant:** Matthew Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

mab i Matthew Jones o Gaerfallwch, Sir y Fflint. Bu yn Ysgol Westminster ac aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychen, yn 1681, yn 18 oed; graddiodd yn 1685. Cafodd amryw fywiolaethau yn Lloegr, ond byr, fel rheol, fu ei arhosiad yn ei wahanol blwyfi - gweler y manylion yn ysgrif D. Lleufer Thomas yn y *D.N.B.* Hynodid ef gan ei bregethu 'Jacyddol' (ag arfer ymadrodd ' Brutus ') a'i dymer afrywiog - onid gorffwyll, yn wir. Bu farw mewn dygn dlodi. Yr unig reswm dros ei gynnwys yn y gyfrol hon yw mai efe oedd gwrthrych y ddychan adnabyddus *The Welch Levite tossed in a Blanket*, 1692, gan Thomas Brown.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Jnl. W.B.S.. vii, 148

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 15830015

Wikidata: Q18670982

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu